

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 108/2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

**Mark Winterbotham, Katie Spreadbury, Becky Duncan
a Marc Cranney, IFF Research.**

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru.

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:

Rhian Davies

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6791

E-bost: rhian.davies45@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 18 Rhagfyr 2014

ISBN 978-1-4734-2659-7

© Hawlfraint y Goron



Pob cynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel arall

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Tabl cynnwys

Cynnwys: Tablau a Ffigurau	2
1 Cyflwyniad.....	3
2 Ymwybyddiaeth.....	8
3 Hygyrchedd	15
4 Gwerth am arian.....	18
5 Boddhad cyffredinol.....	22
6 Casgliadau	31

Cynnwys: Tablau a Ffigurau

Tabl 1.1: Proffil demograffig yr ymatebion.....	5
Tabl 1.2: Proffil o'r cynghorau cymuned a thref.....	7
Ffigur 2.1: Ymwybyddiaeth o gynghorau cymuned a thref.....	8
Ffigur 2.2: Gweithgareddau y mae'r cyngor cymuned neu dref yn gyfrifol amdanynt yn yr ardal leol (digymell)	10
Ffigur 2.3: Gweithgareddau y mae'r cyngor cymuned neu dref yn gyfrifol amdanynt yn yr ardal leol (cymell)	12
Ffigur 3.1: Cyswllt â'r cyngor cymuned neu dref	16
Ffigur 4.1: Brasamcan o ganran y dreth gyngor sy'n mynd i gyllido cynghorau cymuned a thref.....	19
Ffigur 4.2: Pa un a yw cynghorau cymuned a thref yn cynnig gwerth da am arian.....	20
Ffigur 5.1: Boddhad cyffredinol â gwaith cynghorau cymuned a thref	22
Ffigur 5.2: Rhesymau dros fod unigolion yn fodlon â'u cynghorau cymuned a thref (digymell)	24
Ffigur 5.3: Rhesymau dros fod unigolion yn anfodlon â'u cynghorau cymuned a thref (digymell).....	25
Ffigur 5.4: Pa un a yw'n fuddiol cael cynghorau cymuned a thref.....	27
Ffigur 5.5: Pa un a yw cynghorau cymuned a thref yn cynrychioli buddiannau pawb yn eu cymunedau	28
Ffigur 5.6: Pam nad yw cynghorau cymuned a thref yn cynrychioli buddiannau pawb (digymell)	30

1 Cyflwyniad

Cefndir, nodau ac amcanion

- 1.1 Sefydlwyd Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu trefnu yng Nghymru, a sut y gellid eu gwella. Cyhoeddwyd eu hadroddiad ym mis Ionawr 2014, gan gynnwys set o argymhellion clir i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- 1.2 Mae 735 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru, yn darparu gwasanaethau lleol iawn fel cynnal a chadw caeau chwarae a mannau agored, neuaddau pentref a chanolfannau cymuned, llwybrau troed, cofebion rhyfel a gwasanaethau cymunedol eraill. Mae'r cynghorau hyn yn cwmpasu 70% o'r boblogaeth yng Nghymru (rhyw 2.1 miliwn o bobl).
- 1.3 Fodd bynnag, mae bwch yn y dystiolaeth o ran effeithiolrwydd y cynghorau hyn, pa un a yw'r adnoddau ganddynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol, a pha un a ydynt yn gallu cynrychioli anghenion y gymuned leol.
- 1.4 Un mater a nodwyd yn adroddiad y Comisiwn ar draws y sector cyhoeddus oedd mater graddfa. Y pryder yw y gallai cynghorau tref a chymuned fod yn rhy niferus i gyflawni'r holl wasanaethau sy'n ofynnol ganddynt yn effeithiol; yn wir, mae rhyw 735 o'r cynghorau yn fach iawn gydag 18% ohonynt yn cynrychioli llai na 500 o ddinasyddion. Mae cwestiwn yn codi felly ynghylch pa un a yw'r adnodd gan gynghorau llai i gyflawni eu cylch gwaith yn effeithiol, ond nid oes llawer o dystiolaeth empirig i gefnogi neu wrthbrofi hyn.
- 1.5 I'r gwrthwyneb, mynegodd yr awduron bryder fod Cymru yn cynnwys cymunedau sydd â chysylltiadau lleol iawn a chadarn iawn, ac y dylid gwarchod y rhain fel bod unrhyw strwythur newydd yn gallu cynrychioli'n ddemocrataidd pob un o'r ardaloedd y mae'n eu cwmpasu, a bod yn ymatebol i anghenion lleol iawn. Y rhagdybiaeth yma yw y bydd cyngor llai yn fwy ymatebol i anghenion lleol; fodd bynnag, eto, nid oes unrhyw

dystiolaeth i gefnogi neu wrthod hyn fel damcaniaeth ymhlith cyngorau cymuned a thref yng Nghymru.

1.6 Fel y cyfryw, comisiynwyd yr ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru i fesur ymwybyddiaeth y cyhoedd a barn y cyhoedd am eu Cyngor Cymuned neu Dref. Dyma oedd amcanion yr ymarferiad:

- Pennu lefel yr ymwybyddiaeth ymhlith dinasyddion sy'n cael eu cwmpasu dan Gyngor Cymuned neu Dref o'i fodolaeth a'r cyfrifoldebau sydd ganddo;
- Mesur lefel yr ymgysylltiad â'r Cyngor trwy gyfran y dinasyddion sydd wedi cysylltu â'r Cyngor;
- Asesu lefel y boddhad â gwaith y Cyngor, o ran pa mor dda y mae'n cyflawni ei rolau a pha mor dda y mae'n cynrychioli buddiannau'r gymuned.

Methodoleg

1.7 Cynhaliwyd cyfanswm o 1,000 o gyfweiliadau ffôn gydag aelodau'r cyhoedd (18 oed a hŷn) yn byw mewn ardaloedd sy'n dod o dan gynghorau cymuned neu dref ledled Cymru.

1.8 Cynhaliwyd y cyfweiliadau gan IFF Research, sef asiantaeth ymchwil annibynnol, gan ddefnyddio dull Cyfweiliadau dros y Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur (CATI). Gwnaed y gwaith maes rhwng 5 ac 19 Awst 2014. Ffoniwyd cartrefi a defnyddiwyd techneg "pen-blwydd nesaf" i ddewis ymatebydd ar hap o fewn y teulu. Cynhaliwyd y cyfweiliadau yn Gymraeg neu Saesneg, gan ddibynnu ar ddewis y cyfranogwr.

1.9 Mae proffil demograffig yr ymatebion a gafwyd yn cael ei ddangos yn Nhabl 1.1. Yn y cam dadansoddi, cafodd y data ei bwysoli yn ôl matrices oed a rhyw cydgloadol i sicrhau bod y canlyniadau yn gynrychioliadol o boblogaeth gyffredinol Cymru sy'n cael eu cwmpasu gan gynghorau cymuned a thref; mae Tabl 1.1 hefyd yn dangos y proffil ymateb wedi'i bwysoli. At ei gilydd, roedd y cyfweiliadau a gasglwyd yn ddigonol i gynrychioli'r boblogaeth gyfan, gan hefyd gynnwys digon o gyfweiliadau ym mhob is-grŵp (ac eithrio ethnigrwydd Prydeinig heb fod yn Wyn) i ganiatáu ar gyfer dadansoddiad cadarn o is-grwpiau.

Table 1.1: Proffil demograffig o ymatebion

		Heb ei phwysoli	Wedi'i phwysoli
<i>Sylfaen</i>	<i>n (heb ei phwysoli)</i>	<i>(1,000)</i>	<i>(1,000)</i>
		%	%
<i>Rhyw</i>			
Gwryw	441	49	49
Benyw	453	51	51
<i>Oed</i>			
O dan 35	133	15	23
35-54	405	45	34
55+	355	40	43
<i>Ethnigrwydd</i>			
Gwyn Prydeinig	867	97	97
Arall	24	3	2

1.10 Rhannwyd y proffil ymatebion yn gyfartal yn ôl rhyw, ond roedd yn gogwyddo'n drwm iawn tuag at y boblogaeth Gwyn Prydeinig (gan adlewyrchu i raddau helaeth gyfansoddiad ethnig yr ardaloedd dan sylw). Roedd yr ymatebion yn gogwyddo'n drymach tuag at y boblogaeth hŷn, er bod meintiau sylfaen yn ddigon mawr i adrodd ar wahaniaethu rhwng y rhai o dan 35 oed, y rhai rhwng 35-54 oed a'r rhai 55 oed a hŷn.

1.11 Mae Tabl 1.2 yn dangos proffil y cynghorau cymuned a thref a gynhwyswyd yn yr arolwg hwn. Mae'r arolwg yn gynrychioliadol o bobl yn byw mewn ardaloedd sy'n cael eu cwmpasu gan y cynghorau, ac fel y cyfryw mae'r ymatebion yn fwy cyffredin o blith y cynghorau mwy (gan eu bod, yn ôl eu diffiniad, yn cwmpasu mwy o bobl). Nid yw hyn yn effeithio ar ddibynadwyedd y canlyniadau, ond rhaid i ni fod yn glir y dylai'r canlyniadau a ddadansoddwyd yn ôl maint gael eu darllen fel rhai sy'n gynrychioliadol o'r boblogaeth, ac nid yn gynrychioliadol o gynghorau (h.y. byddai ffigur a adroddir fel "20% o bobl mewn

cynghorau bach” yn golygu 20% o bobl sy’n dod o dan gyngor sy’n cynrychioli poblogaeth o 500-999 o unigolion, nid 20% o’r holl gynghorau o’r maint hwnnw.

Table 1.2: Proffil cynghorau cymuned a thref

		Heb ei phwysoli	Wedi'i phwysoli
<i>Sylfaen</i>	<i>n (heb ei phwysoli)</i>	<i>(1,000)</i>	<i>(1,000)</i>
		%	%
<i>Proffil ardal</i>			
Trefol	557	56	56
Gwledig	443	44	44
<i>Rhanbarth</i>			
Gogledd	266	27	27
Canolbarth	93	9	10
De orllewin	250	25	25
De ddwyrain	391	39	38
<i>Maint (poblogaeth oedolion a gwmpaswyd)</i>			
Bach iawn (Llai na 500)	23	2	2
Bach (500-999)	66	7	7
Bach i Ganolig (1,000-2,499)	149	15	15
Canolig (2,500-4,999)	156	16	15
Canolig i Fawr (5,000-9,999)	252	25	25
Mawr (10,000-19,999)	244	24	24
Mawr iawn (20,000+)	110	11	11

Confensiynau adrodd


1.12 Ble bynnag y trafodir gwahaniaethau rhwng is-grwpiau o ymatebwyr, mae'r rhain yn ystadegol arwyddocaol ar y lefel hyder 95 y cant, oni nodir fel arall.¹

¹ Mae lefel hyder o 95% yn golygu yn ystadegol y gallwn fod yn 95% yn hyderus fod y gwahaniaeth yn wahaniaeth go iawn, nid un sy'n deillio o'r ffaith ein bod wedi siarad â sampl o boblogaeth Cymru

2 Ymwybyddiaeth

- 2.1 Er mwyn asesu effeithiolrwydd cynghorau o ran ymgysylltu â'u poblogaethau, mae'n bwysig mesur ymwybyddiaeth y cyhoedd o gynghorau cymuned a thref.
- 2.2 Fel y dangosir yn Ffigur 2.1, roedd y mwyafrif helaeth o unigolion yn ymwybodol bod cyngor cymuned neu dref ganddynt (89%). Roedd rhyw un o bob deg yn ansicr p'un a oedd ganddynt gyngor cymuned neu dref (8%) a dim ond 3% a ddywedodd nad oeddent yn ymwybodol.

Ffigur 2.1: Ymwybyddiaeth o gynghorau cymuned a thref




- 2.3 Roedd lefel yr ymwybyddiaeth yn uchel ar draws pob grŵp oedran, er bod oedolion iau yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'u cyngor cymuned neu dref (83% o'r rhai o dan 35 oed yn erbyn 90% o'r rhai 35-54 oed a 92% o'r rhai 55 oed a hŷn). Nid oedd llawer o amrywio yn lefel yr

ymwybyddiaeth yn ôl rhanbarth o Gymru neu yn ôl maint cyngor cymuned neu dref.

- 2.4 I gynnal prawf pellach ar ymwybyddiaeth, gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr a ddywedodd eu bod yn dod o dan gyngor cymuned neu dref beth oedd y cyngor yn gyfrifol amdano yn eu hardal. Mae cyfrifoldebau'n amrywio rhwng cynghorau ar sail maint, lleoliad ac anghenion eu cymuned, felly ni allwn ddweud yn sicr a yw'r cyfranogwyr yn gywir yn eu hatebion; fodd bynnag, mae cymharu eu hymatebion yn erbyn y meysydd sydd o fewn cylch gwaith cynghorau cymuned a thref yn nodweddiadol yn dynodi y gall fod rhywfaint o ddryswch ynghylch beth mae'r cynghorau yn gyfrifol amdano.
- 2.5 Roedd dros dair rhan o bump (62%) o'r rheiny a oedd yn ymwybodol bod yr ardal lle maent yn byw yn dod o dan gyngor cymuned neu dref yn gallu nodi o leiaf un gweithgarwch yr oedd y cyngor hwn yn gyfrifol amdano. Golygai hyn, fodd bynnag, fod lleiafrif sylweddol o'r rheiny a oedd yn ymwybodol o'u cyngor ddim yn gwybod beth oeddent yn gyfrifol amdano (38%). Oedolion iau (49% o dan 35 oed) a'r rheiny yr oedd eu cyngor cymuned neu dref yn cwmpasu poblogaeth fwy o 10,000 - 19,999 (44%) (er nid y rheiny yr oedd eu cyngor yn cwmpasu 20,000 neu fwy o drigolion) oedd lleiaf tebygol o fod yn gallu nodi unrhyw weithgarwch yn cael ei gyflawni gan eu cyngor cymuned pan ofynnwyd iddynt wneud hynny heb gael eu cymell.
- 2.6 Mae Ffigur 2.2 yn dangos cyfrifoldebau canfyddedig y cynghorau cymuned a thref a nodwyd yn fwyaf cyffredin.

Ffigur 2.2: Gweithgareddau y mae'r cyngor cymuned neu dref yn gyfrifol amdanynt yn yr ardal leol (digymell)




- 2.7 Roedd aelodau'r cyhoedd a oedd yn ymwybodol o'u cyngor tref neu gymuned yn gallu nodi ystod eithaf eang o weithgareddau y credent fod eu cyngor yn gyfrifol amdanynt. Fel y crybwyllwyd, mae cyfrifoldebau cynghorau cymuned a thref yn amrywio o gyngor i gyngor, ac felly efallai nad yw'r rheiny a nodwyd yn gywir ar gyfer pob cyngor o reidrwydd. Fodd bynnag, mae'r gweithgareddau a nodwyd yn fwyaf cyffredin, sy'n cynnwys cynnal a chadw parciau a chaeau chwarae (18%) ac amwynderau cyhoeddus (18%), yn wir yn gyfrifoldeb cynghorau cymuned a thref yn gyffredinol.
- 2.8 Mae nifer o'r gweithgareddau a nodwyd yn rhai sy'n rhan o gylch gwaith cynghorau cymuned a thref yn cael eu cyflawni'n fwy cyffredin mewn gwirionedd gan awdurdodau lleol. Roedd gweithgareddau o'r fath yn

cynnwys casglu gwastraff o gartrefi (sef y trydydd gweithgarwch mwyaf cyffredin a nodwyd, ar 12%), ffyrdd/priffyrdd, goleuadau stryd ac atal troseddu (6-9%).

- 2.9 Roedd trigolion yn ne orllewin Cymru i weld yn fwy ymwybodol o'r hyn yr oedd eu cynghorau cymuned neu dref yn gyfrifol amdano (dim ond 32% yn y de orllewin oedd yn methu â nodi unrhyw beth, o gymharu â 38% ar gyfartaledd). Yn benodol, roeddent yn fwy tebygol o sôn bod parciau a safleoedd hamdden o dan gyfrifoldeb y cyngor cymuned neu dref (23% yn erbyn cyfartaledd o 18%) ac roeddent hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gyfrifol am neuaddau pentref / cymuned (10% yn erbyn 6%).
- 2.10 Wedyn, cafodd y cyfranogwyr a oedd yn ymwybodol o'u cyngor cymuned neu dref restr o weithgareddau yn ymwneud â rhedeg, cynnal a chadw a hyrwyddo'r ardal leol, a gofynnwyd iddynt ddatgan ar gyfer pob un p'un a oedd yn cael ei gyflawni gan eu cyngor cymuned / tref, eu hawdurdod lleol neu ryw gorff neu sefydliad arall. Mae Ffigur 2.3 yn dangos cyfran y cyhoedd a nododd, ar gyfer pob gweithgaredd a restrwyd, mai eu cyngor cymuned neu dref oedd yn gyfrifol amdanynt. Roedd y gweithgareddau a restrwyd yn weithgareddau sy'n dod o dan gylch gwaith y cyngor cymuned neu dref yn gyffredinol, ac eithrio'r rheiny ag amlinell goch (a gyflawnir gan yr Awdurdod Lleol yn fwy nodweddiadol).

Ffigur 2.3: Gweithgareddau y mae'r cyngor cymuned neu dref yn gyfrifol amdanynt yn yr ardal leol (cymell)



- 2.11 Digwyddiadau cymunedol oedd yn fwyaf tebygol o gael eu nodi'n rhai a gynhelir gan y cyngor cymuned neu dref (66%), tra dywedodd tair rhan o bump (y mwyafrif o hyd) fod neuaddau pentref yn dod o dan ofal eu cyngor cymuned neu dref (61%).
- 2.12 O ran priodoli'r mwyafrif o weithgareddau fodd bynnag, fe'u rhannwyd yn fras rhwng y cynghorau cymuned neu dref a'r awdurdod lleol, gan awgrymu bod rhywfaint o ddryswch ynghylch yr hyn y mae pob cyngor yn gyfrifol amdano. Roedd aelodau'r cyhoedd yn lleiaf tebygol o nodi twristiaeth / gefeillio (39%) a chladdfeydd (38%) yn gywir fel gweithgareddau sy'n dod o dan gylich gwaith cynghorau cymuned a thref.
- 2.13 Nododd lleiafrif sylweddol mae eu cyngor tref neu gymuned sy'n gyfrifol am gasglu gwastraff o gartrefi (41%) a goleuadau stryd (40%), sef gweithgareddau y bydd yr awdurdod lleol yn gofalu amdanynt yn fwy cyffredin, a chredai cyfran lai o'r cyhoedd, ond cyfran arwyddocaol serch

hynny, eu bod hefyd yn gyfrifol am drafnidiaeth leol (25%), atal troseddu (24%) a gwasanaethau iechyd (12%), gwasanaethau sydd eto yn cael eu darparu gan yr awdurdod lleol yn fwy nodweddiadol. Mae hyn eto'n awgrymu bod rhywfaint o ddryswch ynghylch cylch gwaith y cynghorau lleol a'r gwahaniaeth rhyngddynt.

- 2.14 Er bod ymatebion yn tueddu bod wedi'u rhannu rhwng cynghorau cymuned neu dref ac awdurdodau lleol (gyda 'sefydliadau arall' yn cael ei nodi ar adegau, ond yn llai aml), cyfaddefodd gymaint ag un o bob chwech nad oeddent yn siŵr pwy oedd yn gofalu am dwristiaeth / gefeillio (17%), neuaddau pentref, amwynderau cyhoeddus, neu gladdfeydd (16% yr un).
- 2.15 Roedd y rheiny yn ardaloedd trefol Cymru (yn hytrach na gwledig) yn fwy tebygol o nodi'n gywir gyfrifoldebau nodweddiadol cynghorau cymuned a thref, gan gynnwys toiledau cyhoeddus (49% trefol yn erbyn 41% gwledig) a chladdfeydd (43% yn erbyn 32%). Mewn cyferbyniad, roedd y rheiny yn ardaloedd gwledig Cymru i weld bod ganddynt wybodaeth well am gyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol; er enghraifft, nodwyd gwastraff cartref a goleuadau stryd yn gywir gan gyfran uwch o drigolion gwledig (63% a 57% yn y drefn honno) fel gweithgareddau oedd dan gylch gwaith yr Awdurdod Lleol, o gymharu â thrigolion trefol (51% a 48% yn y drefn honno). Mae hyn yn dynodi y gall fod mwy o ymwybyddiaeth gan y rheiny yn ardaloedd trefol Cymru o'r hyn y mae eu cyngor cymuned neu dref yn ei wneud na'r rheiny mewn ardaloedd gwledig, er y gallai hefyd adlewyrchu cylchoedd gwaith gwahanol gynghorau sy'n gweithredu mewn lleoliadau trefol a gwledig.
- 2.16 Roedd y rheiny a oedd yn byw yn y cymunedau lleiaf yn tueddu priodoli llai o gyfrifoldebau i'w cyngor cymuned neu dref: roedd trigolion sy'n byw mewn ardaloedd lle mae'r cyngor yn gofalu am boblogaeth llai na 500 yn llai tebygol o fod wedi dweud eu bod yn gyfrifol am ddigwyddiadau cymunedol (42% yn erbyn 66%), neuaddau pentref (41% yn erbyn 61%), llwybrau troed (24% yn erbyn 47%) a chladdfeydd (18% yn erbyn cyfartaledd o 38%), er y gallai'r trigolion hyn yn wir fod yn gywir o ystyried maint bach eu cynghorau.

2.17 Ymhlith y rheiny nad oeddent yn ymwybodol o'u cyngor cymuned neu dref (11% o'r boblogaeth sy'n dod o dan gyngor o'r fath), credwyd bod gweithgareddau y mae'r cyngor cymuned neu dref yn gofalu amdanynt yn gyfrifoldeb yr awdurdod lleol yn gyffredinol. Roedd y gweithgareddau mwyaf cyffredin a nodwyd yn weithgareddau yng nghylch gwaith yr awdurdod lleol yn cynnwys cynnal a chadw parciau a safleoedd hamdden (82%), llwybrau troed (78%) ac amwynderau cyhoeddus (73%).


3 Hygyrchedd

- 3.1 Gellir mesur ymgysylltiad â chynghorau cymuned neu dref yn ôl faint o gyswllt y caiff aelodau'r cyhoedd â'u cyngor. Gall cynghorau gysylltu â thrigolion i'w diweddarau ynglŷn â'u gweithgarwch, rhoi gwybod iddynt am ymgyrchoedd lleol penodol neu ynghylch etholiadau; gall trigolion gysylltu â chynghorau pan fydd ganddynt fater i'w godi ar lefel leol neu i roi sylwadau arno, neu pan fydd angen cymorth arnynt (er enghraifft, o blaid/yn erbyn ceisiadau cynllunio). Gall fod cyfarfodydd lleol hefyd y bydd croeso i drigolion eu mynychu. Dylid nodi y gall lefelau cyswllt uchel â'r cyngor cymuned neu dref fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.
- 3.2 Roedd ychydig dros hanner (53%) y cyhoedd yng Nghymru wedi cael rhyw fath o gyswllt â'u cyngor cymuned neu dref, gan gynnwys cyswllt ag unrhyw un o'r cynghorwyr. Mae hyn yn gyfwerth â 60% o'r rheiny a oedd yn ymwybodol o'u cyngor lleol.
- 3.3 Ymhlith y rheiny a oedd yn ymwybodol o'u cyngor cymuned neu dref, dywedodd y mwyafrif (83%) eu bod yn gwybod sut i gysylltu â'r cyngor. Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn lefel yr ymwybyddiaeth ynghylch sut i gysylltu â'r cyngor yn ôl rhanbarth neu faint cyngor tref neu gymuned. Mae hyn yn awgrymu lefel hygyrchedd uchel pe bai gan drigolion fater y mae angen iddynt ei godi.
- 3.4 Roedd cyswllt â'r cyngor cymuned neu dref yn fwy tebygol o gael ei gychwyn gan y cyhoedd yn hytrach na'r cyngor. Roedd bron i hanner (46%) y rheiny a oedd yn gwybod bod ganddynt gyngor cymuned neu dref wedi cysylltu â'u cyngor ar ryw adeg, tra dywedodd cyfran lai (38%) fod y cyngor wedi cychwyn y cyswllt ar o leiaf un achlysur. (Mae hyn yn gyfwerth ag 80% o'r rheiny a oedd wedi cael unrhyw gyswllt ar ôl cychwyn y cyswllt, a 64% y cysylltodd eu cyngor â nhw).
- 3.5 Fel y dengys y ffigurau hyn, roedd nifer o bobl a oedd wedi cysylltu â'u cyngor ar o leiaf un achlysur, ac yr oedd eu cyngor wedi cysylltu â nhw hefyd ar o leiaf un achlysur. O'r rheiny a oedd wedi cael cyswllt, roedd dros draean (36%) a oedd ond wedi cychwyn y cyswllt â'u cyngor erioed, roedd 23% yr oedd eu cyswllt ond wedi'i gychwyn gan y cyngor

erioed, ac roedd 41% wedi cael cyswllt a gychwynnwyd ganddynt eu hunain a'r cyngor.

- 3.6 Mae Ffigur 3.1 yn dangos y ffigurau hyn yn seiliedig ar bob un o'r rheiny a oedd yn ymwybodol o'u cyngor cymuned neu dref.

Ffigur 3.1: Cyswllt â'r cyngor cymuned neu dref




- 3.7 Mae data'n awgrymu bod cymunedau maint canolig mewn mwy o gysylltiad â'u cyngor cymuned neu dref, o gymharu â chymunedau mwy lle cychwynnir y rhan fwyaf o'r cyswllt gan y trigolion lleol. Y trigolion a oedd yn byw mewn ardaloedd lle'r oedd y cyngor cymuned neu dref yn cwmpasu cymuned fach i ganolig (1,000-2,499 o drigolion) oedd yn fwyaf tebygol o fod wedi cael cyswllt â'u cyngor (cyswllt naill ai wedi'i gychwyn gan y trigolion lleol neu gan y cyngor) (71% yn erbyn 60% ar gyfartaledd). Er bod y trigolion hynny a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf a oedd yn dod o dan gyngor tref neu gymuned yr un mor debygol o fod wedi cael unrhyw gyswllt â'u cymuned â'r cyfartaledd, roedd yn llai tebygol bod eu cyngor tref wedi cysylltu neu ymgynghori â nhw (roedd eu cyngor wedi cysylltu â 29% o'r rheiny mewn ardaloedd o 20,000 o drigolion a mwy yn erbyn 38% yn gyffredinol).

- 3.8 Roedd aelodau'r cyhoedd yn ne orllewin Cymru yn fwy tebygol o fod wedi cael unrhyw gyswllt â'u cyngor cymuned neu dref na'r cyfartaledd (67% yn erbyn 60%), a'r rheiny yn y de ddwyrain oedd y rhai lleiaf tebygol (52%). Ymddengys bod y lefelau cyswllt is yn y de ddwyrain yn gyfuniad o'r boblogaeth hon yn llai tebygol o gychwyn cyswllt â'u cyngor cymuned neu dref nag mewn ardaloedd eraill (roedd 41% wedi cychwyn cyswllt yn erbyn 46% yn gyffredinol) a chynghorau'r de ddwyrain yn llai tebygol o gysylltu â'u trigolion lleol nag ardaloedd eraill (cysylltwyd â 31% yn erbyn 38% ar gyfartaledd).
- 3.9 Roedd oedran yn ffactor arwyddocaol o ran rhagfynegi ymgysylltiad â'r cyngor cymuned a thref. Roedd y tebygolrwydd o gael unrhyw gyswllt â'r cyngor cymuned neu dref yn cynyddu gydag oedran: roedd 23% o dan 35 oed wedi cael cyswllt â'u cyngor o gymharu â 34% o'r rhai 35-54 oed a 43% o'r rhai 55 a hŷn. Roedd oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod wedi gwneud cyswllt â'u cyngor cymuned neu dref (56% o'r rhai 55 oed a hŷn yn erbyn 42% o'r rhai 25-54 oed a 32% o'r rhai o dan 35 oed); ac o fod wedi cael eu cyngor yn cysylltu â nhw (45% o'r rhai 55 oed a hŷn yn erbyn 38% o'r rhai 35-54 oed a 26% o'r rhai o dan 35 oed).

4 Gwerth am arian


- 4.1 Mae faint o arian y bydd y cyhoedd yn ei dalu tuag at eu cyngor cymuned neu dref yn amrywio, ac mae cynghorau yn gallu gosod eu hardoll eu hunain. Yn nodweddiadol, dim ond 2% o dreth gyngor pob unigolyn sy'n cyllido'u cyngor cymuned a thref.
- 4.2 Ni allai lleiafrif sylweddol (28%) o'r cyhoedd a oedd yn ymwybodol o'u cyngor cymuned neu dref ddyfalu (hyd yn oed o gael eu cymell) faint o'u treth gyngor sy'n mynd tuag at ei ariannu. Rhoddwyd ystod o atebion gan y rheiny a allai roi amcangyfrif (gan gynnwys rhai a oedd ond yn gallu dyfalu o gael eu cymell gyda dewisiadau). Dim ond un o bob deg (10%) wnaeth roi amcangyfrif a oedd yn disgyn i'r ystod nodweddiadol 1-5% o ran treth gyngor. Credai'r mwyafrif helaeth felly fod cyfran uwch o'u treth gyngor yn mynd tuag at gyllido eu cyngor cymuned neu dref nag sy'n wir yn nodweddiadol, gyda'r amcangyfrif mwyaf cyffredin rhwng 10-24% o'r dreth gyngor (24%) (Gweler Ffigur 4.1).

Ffigur 4.1: Amcangyfrif o ganran y treth gyngor sy'n mynd tuag at gyllido cynghorau cymuned a thref



- 4.3 Fel y dangosir yn Ffigur 4.2, roedd dwy ran o bump (40%) o'r rheiny a oedd yn ymwybodol o'u cyngor cymuned neu dref yn cytuno ei fod yn cynnig gwerth da am arian, ac roedd traean (33%) yn anghytuno. Dywedodd chwarter (25%) nad oeddent yn cytuno na'n anghytuno.
- 4.4 Nid oedd yn ymddangos bod gwerth am arian yn cael ei gysylltu â'r gyfran o'r dreth gyngor yr oedd y cyhoedd yn amcangyfrif oedd yn mynd tuag at gyllido'r cyngor cymuned neu dref. Mae hyn yn awgrymu ymhellach fod rhywfaint o ddryswch ynglŷn â sut y caiff y cynghorau hyn eu hariannu (a faint y cânt eu hariannu) a beth maent yn ei wneud.

Figur 4.2: Pa un a yw cynghorau cymuned a thref yn cynnig gwerth da am arian



- 4.5 Roedd y rheiny a oedd wedi cael cyswllt â'u cyngor cymuned neu dref yn fwy tebygol o gytuno ei fod yn cynnig gwerth da am arian o gymharu â'r rheiny nad oedd wedi cael unrhyw gyswllt (44% yn erbyn 33% yn y drefn honno). Gallai hyn fod yn gysylltiedig â mwy o ymgysylltiad a gwybodaeth am yr hyn maent yn ei wneud, a gallai esbonio'n rhannol pam mae'r boblogaeth hyn (a oedd wedi cael mwy o gyswllt â'u cyngor cymuned neu dref) yn fwy tebygol o gytuno ei fod yn cynnig gwerth da am arian (46% o gymharu â 35% o'r rhai 35-54 oed a 35% o'r rhai o dan 35 oed).
- 4.6 Roedd y trigolion hynny y mae eu cynghorau cymuned neu dref yn cwmpasu poblogaethau mawr (a mawr iawn) yn fwy negyddol na'r cyfartaledd ynglŷn â bod eu cyngor yn cynnig gwerth da am arian (roedd 36% o boblogaethau o 10,000 a mwy yn anghytuno ei fod yn cynnig gwerth da am arian yn erbyn 33% ar gyfartaledd) o gymharu â'r rheiny mewn cymunedau llai a oedd yn llai negyddol na'r cyfartaledd (roedd

25% mewn cymunedau bach i ganolig (1,000-2,499) yn anghytuno). At ei gilydd, nid oedd y graddau y mae aelodau'r cyhoedd yn cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor cymuned neu dref yn cynnig gwerth da am arian yn gwahaniaethu'n sylweddol yn ôl rhanbarth.

- 4.7 Roedd aelodau'r cyhoedd mewn lleoliadau trefol yn fwy negyddol ynglŷn â'u cynghorau cymuned a thref pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn cynnig gwerth da am arian: roedd y rheiny mewn lleoliadau trefol yn fwy tebygol o anghytuno na'r rheiny mewn lleoliadau gwledig (37% yn erbyn 27% yn y drefn honno).

5 Boddhad cyffredinol


- 5.1 At ei gilydd, roedd y cyhoedd yn fwy tebygol o fod yn fodlon (49% o'r rheiny a oedd yn ymwybodol o'u cyngor) na'n anfodlon (23%) gyda gwaith eu cyngor cymuned neu dref, er y dywedodd lleiafrif sylweddol naill ai nad oeddent yn fodlon na'n anfodlon (27%) (Gweler Ffigur 5.1).

Ffigur 5.1: Boddhad cyffredinol gyda gwaith cynghorau cymuned a thref

- 5.2 Roedd y trigolion hynny a oedd wedi cael cyswllt gyda'u cyngor cymuned neu dref yn fwy tebygol na'r rheiny nad oeddent wedi cael cyswllt o fod yn fodlon â'u cyngor yn gyffredinol (53% yn erbyn 44%). Eto, fe allai lefel cyswllt uwch gyda'r cyngor fod yn gysylltiedig â mwy o ymgysylltiad a gwybodaeth am yr hyn maent yn ei wneud, felly mae'n galonogol fod hyn yn ymwneud â lefelau boddhad uwch.
- 5.3 Roedd lefelau boddhad yn gysylltiedig hefyd â ph'un a gychwynwyd y cyswllt gan y cyngor neu beidio, gyda'r rheiny yr oedd eu cyswllt wedi'i gychwyn gan y cyngor yn fwy bodlon (54%) na'r rheiny nad oedd eu cyswllt erioed wedi'i gychwyn gan y cyngor (46%). Fe allai lefel cyswllt uwch gan y cyngor fod yn gysylltiedig â mwy o deimlad bod y cyngor yn ceisio ymgysylltu â'r gymuned.
- 5.4 Gallai hyn esbonio (yn rhannol o leiaf) pam yr oedd y rheiny sy'n byw mewn lleoliadau gwledig (sy'n fwy tebygol o fod wedi cael y cyngor yn cysylltu â nhw (42% yn erbyn 35% trefol) yn fwy tebygol o fod yn 'fodlon iawn' a'u cyngor cymuned neu dref na'r rheiny a oedd yn byw mewn lleoliadau trefol (13% yn erbyn 8% yn y drefn honno).
- 5.5 Roedd y trigolion hynny a oedd yn byw mewn ardaloedd yr oedd eu cyngor yn cwmpasu poblogaeth maint canolig (yn hytrach na phoblogaeth fach neu fawr) yn fwy tebygol o fod yn fodlon â gwaith eu cyngor: roedd dwy ran o dair (61%) o'r rheiny yr oedd eu cynghorau tref a chymuned yn cwmpasu poblogaethau bach i ganolig (1,000-2,499) yn fodlon, o gymharu â dim ond dwy ran o bump (41%) o boblogaethau bach (<1000) a 46% o boblogaethau mawr (10,000 a mwy).

- 5.6 At ei gilydd, nid oedd lefelau boddhad yn amrywio'n sylweddol yn ôl rhanbarth.
- 5.7 Roedd y trigolion 55 oed a hŷn a oedd yn ymwybodol o'u cyngor cymuned neu dref yn fwy tebygol na'r rhai 35-54 oed a'r rhai o dan 35 oed o fod yn fodlon â'r gwaith y mae'n ei wneud yn gyffredinol (55% o gymharu â 46% a 43% yn y drefn honno), eto efallai yn gysylltiedig â'r ffaith fod y boblogaeth hŷn yn fwy tebygol o fod wedi cael cyswllt â'r cyngor.
- 5.8 Rhoddwyd amrywiaeth o resymau am eu boddhad gan y 49% a oedd yn fodlon â gwaith y cyngor cymuned neu dref, fel y dangosir yn Ffigur 5.2.


Figur 5.2: Rhesymau pam mae unigolion yn fodlon â'u cynghorau cymuned a thref (digymell)



5.9 Yn fwyaf cyffredin, roedd y rhesymau dros foddhad yn canoli o amgylch y rhestr o swyddi y mae'r cyngor tref neu gymuned yn eu gwneud, gan awgrymu bod y swyddi hyn yn bwysig i'r gymuned. Roedd y swyddi a restrwyd yn cynnwys cynnal a chadw'r ardal leol (35%), trefnu digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau i blant (11%) a chynnal a chadw parciau (8%). Fe wnaeth 8% hefyd restru boddhad â'r gwasanaeth casglu gwastraff fel un o'u rhesymau am fod yn fodlon yn gyffredinol; fodd bynnag, mae hwn yn dod o dan gylch gwaith yr awdurdod lleol yn nodweddiadol.

- 5.10 Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin nesaf dros foddhad cyffredinol yn canoli o amgylch teimlad y cyhoedd bod y cyngor yn gwrando ar y gymuned a'i fod yn ymatebol (16%) ac yn hawdd mynd atynt (8%). Felly, ymddengys bod ymgysylltiad â'r gymuned a'r cyngor yn bod yn gynrychioliadol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.
- 5.11 Rhoddwyd amrywiaeth o resymau am eu hanfodlonrwydd gan y 23% a oedd yn anfodlon â gwaith y cyngor cymuned neu dref, fel y dangosir yn Ffigur 5.3.

Ffigur 5.3: Rhesymau pam mae unigolion yn anfodlon â'u cynghorau cymuned a thref (digymell)




- 5.12 Yn fwyaf cyffredin, roedd y rhesymau am anfodlonrwydd yn canoli o amgylch y cyngor cymuned neu dref yn methu â gwneud eu gwaith: dywedodd dros draean nad ydynt yn cynnal a chadw'r ardal leol (35%) a dywedodd rhyw chwarter (24%) nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud.
- 5.13 Credai rhai eraill, er bod eu cyngor tref a chymuned yn gwneud eu gwaith, eu bod yn ei wneud yn wael. Roedd rhai'n anhapus am eu bod

wedi cau neu gwtogi ar wasanaethau a chyfleusterau lleol (15%) gan awgrymu nad yw cynghorau bob amser yn ymateb i anghenion y gymuned (yn wir, roedd peidio â gwrando ar y gymuned yn achos anfodlonrwydd i 8%). Credai rhai nad oeddent yn gwneud eu gwaith yn dda am eu bod yn gwastraffu arian ar brosiectau diangen (12%).

- 5.14 Roedd yr achosion mwyaf cyffredin nesaf am anfodlonrwydd yn ymwneud â chost eu gwasanaethau a hygyrchedd gwael. Dywedodd rhyw un o bob wyth (8%) eu bod yn costio gormod, a dywedodd un o bob deg (10%) eu bod yn anodd cysylltu â nhw. Roedd y trigolion hynny mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o nodi anhygyrchedd fel achos am eu hanfodlonrwydd na'r rheiny mewn ardaloedd trefol (16% yn erbyn 6% yn y drefn honno).
- 5.15 Roedd ardaloedd mwy (y rheiny yr oedd eu cynghorau'n cwmpasu poblogaeth o 20,000 a mwy) yn fwy tebygol o gwyno am eu cyngor tref neu gymuned yn methu â gwneud eu gwaith yn iawn ac yn gwastraffu arian cyhoeddus: Dywedodd dros hanner nad oeddent yn cynnal a chadw'r ardal leol (54% yn erbyn 35% ar gyfartaledd) a dywedodd chwarter eu bod yn gwastraffu arian ar brosiectau / digwyddiadau diangen (24% yn erbyn 12% ar gyfartaledd).
- 5.16 Roedd aelodau'r cyhoedd yn y de orllewin yn pryderu mwy hefyd ynghylch cost gwasanaethau cynghorau cymuned neu dref, ac yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwastraffu arian ar brosiectau a digwyddiadau diangen (20% yn erbyn 12% ar gyfartaledd).
- 5.17 Roedd y trigolion hynny mewn lleoliadau gwledig yn fwy tebygol na'r rheiny mewn lleoliadau trefol o fod yn anfodlon â'u cynghorau cymuned a thref oherwydd y ffaith eu bod yn anodd cysylltu â nhw, ac yn anhygyrch felly (16% yn erbyn 6%).
- 5.18 At ei gilydd, fodd bynnag, roedd y cyhoedd yng Nghymru yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'u cynghorau cymuned a thref. Roedd mwyafrif o aelodau'r cyhoedd a oedd yn ymwybodol o'u cyngor cymuned neu dref yn cytuno eu bod yn fuddiol eu cael (72%), a dim ond 13% oedd yn anghytuno. Nid oedd lleiafrif gweddol fawr yn cytuno na'n anghytuno (14%) ac nid oedd 1% yn gwybod (gweler Ffigur 5.4).

Figur 5.4: Pa un a yw'n fuddiol cael cynghorau cymuned a thref




- 5.19 Dywedodd tri chwarter (75%) o'r rheiny sydd wedi cael unrhyw gyswllt â'u cyngor tref neu gymuned ei fod yn fuddiol ei gael, o gymharu â dwy ran o dair (67%) o'r rheiny nad ydynt wedi cael unrhyw gyswllt.
- 5.20 Roedd rhyw bedwar o bob pump (82%) o'r trigolion hynny yng nghanolbarth Cymru a oedd yn ymwybodol o'u cyngor tref neu gymuned yn cytuno ei bod yn fuddiol ei gael, sef cyfran gryn dipyn yn uwch na'r rheiny a oedd yn ymwybodol o'u cyngor yn y de orllewin a'r de ddwyrain (70% a 69%) yn y drefn honno.
- 5.21 Roedd y trigolion hynny mewn ardaloedd gwledig a oedd yn ymwybodol o'u cyngor tref neu gymuned yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn werth eu cael, na'r rheiny mewn lleoliadau trefol a oedd yn ymwybodol ohonynt (78% yn erbyn 67%).
- 5.22 Roedd y trigolion hynny mewn cymunedau bach i ganolig yn fwy cadarnhaol yn gyffredinol tuag at eu cyngor cymuned neu dref, yn enwedig o'u cymharu yn erbyn y cymunedau llawer mwy: Roedd y rheiny mewn ardaloedd â phoblogaeth o 1,000-2,499 yn fwy tebygol o

gytuno bod eu cyngor yn fuddiol (80% yn erbyn 72% ar gyfartaledd, gyda 53% yn cytuno'n gryf o gymharu â 39% ar gyfartaledd), tra bod y rheiny mewn cymunedau mwy (10,000 i 19,999 o bobl) yn llai tebygol o gytuno (67% yn erbyn 72% ar gyfartaledd).

5.23 Roedd tua hanner (51%) o aelodau'r cyhoedd a oedd yn ymwybodol o'u cyngor cymuned neu dref yn cytuno ei fod yn cynrychioli buddiannau pawb yn eu cymuned, ond roedd tri o bob deg (30%) yn anghytuno (gweler Ffigur 5.5).

Ffigur 5.5: Pa un a yw cynghorau cymuned a thref yn cynrychioli buddiannau pawb yn eu cymunedau




5.24 Roedd y rheiny a oedd wedi bod mewn cysylltiad â'u cyngor cymuned neu dref yn fwy tebygol na'r rheiny nad oeddent erioed wedi bod mewn cysylltiad o gytuno ei fod yn cynrychioli buddiannau pawb yn eu cymuned (56% yn erbyn 44%). Efallai nad yw'n syndod bod cynghorau sydd â lefelau cyswllt uwch â'u trigolion yn fwy tebygol o gael eu

hystyried yn gnghorau sy'n cynrychioli'r trigolion hynny, gan y bydd y trigolion wedi cael mwy o gyfle i rannu'u barnau.

- 5.25 Eto, gall lefel cyswllt uwch â'r cyngor cymuned a thref helpu esbonio pam mae pobl hŷn (sy'n fwy tebygol o fod wedi cael cysylltiad â'u cyngor) yn fwy tebygol o gytuno bod eu cyngor cymuned a thref yn cynrychioli eu hanghenion: Roedd y trigolion 55 oed a hŷn a oedd yn ymwybodol o'u cyngor cymuned neu dref yn fwy tebygol na'r rhai 35-54 oed a'r rhai o dan 35 oed i gytuno ei fod yn cynrychioli buddiannau pawb yn eu cymuned (56% o gymharu â 47% a 48% yn y drefn honno).
- 5.26 Roedd y trigolion hynny mewn cymunedau llai yn fwy tebygol o feddwl bod eu cyngor cymuned neu dref yn cynrychioli buddiannau pawb yn eu cymunedau: credai dwy ran o bump (60%) o'r rheiny yr oedd eu cynghorau tref a chymuned yn cwmpasu poblogaethau bach i ganolig (1,000-2,499) fod eu cyngor tref neu gymuned yn cynrychioli buddiannau pawb yn eu cymuned, o gymharu â 47% o'r rheiny y mae eu cynghorau tref a chymuned yn cwmpasu poblogaethau mawr (10,000 a mwy). Mae hyn yn ategu'r ddamcaniaeth mai cynghorau llai sy'n cynrychioli anghenion lleol orau, anghenion a all gael eu colli mewn cynghorau sy'n cwmpasu ardaloedd mawr.
- 5.27 Roedd mwyafrif (68%) y trigolion hynny mewn lleoliadau gwledig a oedd yn ymwybodol o'u cyngor tref neu gymuned yn cytuno ei fod yn cynrychioli buddiannau pawb yn eu cymuned, o gymharu â llai na hanner (46%) o'r rheiny mewn lleoliadau trefol.

Ffigur 5.6: Pam nad yw cynghorau cymuned a thref yn cynrychioli buddiannau pawb (digymell)



5.28 Fe wnaeth y rheiny a oedd o'r farn nad oedd eu cyngor tref neu gymuned yn cynrychioli buddiannau pawb yn eu cymuned nodi ystod o resymau i esbonio pam hynny (gweler Ffigur 5.6). Y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd nad ydynt yn cyfathrebu â'r gymuned / yn gwrando ar y gymuned (27%), eu bod yn cynrychioli eu hunain yn unig (21%), nad ydynt yn helpu'r gymuned gyfan (16%) ac nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud (14%).

6 Casgliadau

- 6.1 At ei gilydd, ymddengys bod lefel uchel o ymwybyddiaeth o fodolaeth cynghorau cymuned a thref ymhlith y rhai sy'n byw mewn ardaloedd a gwmpesir ganddynt. Roedd hyn yn uwch ymhlith trigolion hŷn na'r rhai iau. Fodd bynnag, fel y dangosir gan y dryswch ynglŷn â rolau cynghorau cymuned a thref ac awdurdodau lleol (nodir yn y paragraff nesaf), ni allwn fod yn sicr bod y cyhoedd yn meddwl am y cyngor iawn pan gawsant eu holi ynghylch eu hymwybyddiaeth.
- 6.2 Mae rhywfaint o ddryswch, fodd bynnag, ynglŷn â'r union rolau sy'n dod o dan eu cylch gwaith, gyda llawer yn drysu rhwng swyddi sy'n gyfrifoldeb yr awdurdod lleol a chyrff eraill fel rhai sy'n gyfrifoldeb i'r cyngor cymuned a thref. Hefyd, mae lefel isel o ymwybyddiaeth o'r modd y caiff cynghorau eu hariannu; nid yw hyn i weld yn dylanwadu ar farnau pobl am y cynghorau, ond mae'n awgrymu bod angen mwy o dryloywder i wneud pobl yn ymwybodol o hyn.
- 6.3 Hefyd, mae lefel uchel o ymdeimlad cadarnhaol tuag at gynghorau cymuned a thref, gyda hanner yn fodlon â'u gwaith a bron i dri chwarter yn credu eu bod yn fuddiol. Fodd bynnag, mae llawer o farnau niwtral, yn deillio yn bennaf o ddiffyg ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'r cynghorau'n ei wneud.
- 6.4 Un ffordd o fesur ymgysylltiad trigolion â chynghorau cymuned a thref yw edrych ar y lefelau cyswllt rhyngddynt â'r cyngor. Roedd lefelau cysylltu yn weddol uchel ar oddeutu hanner yr holl drigolion a gwmpesir gan gyngor cymuned neu dref; eto, roedd hyn yn arbennig o wir eto ymhlith trigolion hŷn. Mae cyswllt â'r cyngor yn cael ei gysylltu'n gadarn â lefelau boddhad uwch ac ymdeimlad cadarnhaol cyffredinol ynglŷn â'r cyngor, gan awgrymu, lle maent yn ymgysylltu â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethau, bod hyn yn cael effaith gadarnhaol.
- 6.5 Fodd bynnag, mae'r ffaith fod y cysylltiad hwn yn fwy cyffredin (neu'n fwy cofiadwy) ymhlith trigolion hŷn yn golygu bod goblygiadau i gynrychioldeb y cynghorau - os trigolion hŷn yn bennaf sy'n rhannu'u barnau, efallai nad yw trigolion iau yn cael eu cynrychioli i'r un graddau,

pryder a godwyd gan nifer fach, ond nifer arwyddocaol, yn ystod yr arolwg. Pa un a yw hyn oherwydd bod trigolion hŷn yn cymryd mwy o ddiddordeb ac yn nodi cyfathrebiadau gan y cyngor a materion lleol, neu pa un a yw oherwydd bod strategaethau cyfathrebu'r cyngorau yn llai effeithiol o ran cyrraedd trigolion iau, ni allwn ddweud o'r data, ond mae'n faes y bydd angen i ni fynd i'r afael ag ef i sicrhau cynrychiolaeth i bawb.

- 6.6 Roedd yr ymchwil yn gallu cynnal prawf ar ba un a yw maint cyngor yn gysylltiedig â boddhad a theimladau o gynrychiolaeth y gymuned gyfan. Y tybiaethau oedd y gall cyngorau llai fod yn gyfyngedig o ran eu hadnoddau i wasanaethu anghenion cymuned yn ddigonol ac yn gadarn, ond i'r gwrthwyneb, gallai cyngorau mwy golli'r cysylltiad hwnnw â'r gymuned a'r materion lleol penodol iawn.
- 6.7 At ei gilydd, mae'r data'n cefnogi'r ddwy ddamcaniaeth – cyngorau maint canolig a raddiwyd uchaf o ran bron pob un o'r mesurau yn yr arolwg. Graddiwyd ymgysylltiad yn uwch, yn ogystal â gwerth am arian canfyddedig, a boddhad cyffredinol. Y trigolion hynny yn byw mewn ardaloedd a oedd yn dod o dan gynghorau cymuned a thref llai oedd yn fwyaf tebygol o ddweud bod y cyngor yn cynrychioli buddiannau pawb yn eu cymunedau.
- 6.8 Yn gryno, mae'r data'n awgrymu, er bod llawer o ymdeimlad cadarnhaol a gwerth i gynghorau cymuned a thref, mae'r rhain yn feysydd y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn cynyddu ymgysylltiad â chymunedau a chynyddu eu heffeithiolrwydd. Mae'r meysydd allweddol a amlygwyd gan yr arolwg yn hyn o beth yn cynnwys eglurder eu diben, eu hygyrchedd, eu hymgysylltiad â'r cyhoedd a'r graddau y gwelir eu bod yn cynrychioli pawb yn eu cymuned. Roedd cysylltiad cadarn â'r ffactorau hyn â lefel boddhad, ac ymddengys eu bod yn ganolog i lwyddiant cynghorau cymuned a thref o ran cyflawni eu cylch gwaith, ym marn y bobl y maent yn eu cynrychioli.